Canolfan Hamdden Crymch	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy, Cyrsiâu Tennis, Pêl Rwyd a Phêl Droed.	£1,000.00

21

Ymgeisydd	Awdurdod Lleol	Prosiect	Dyfarniad
Stadiwm Cwmbran	Torfaen	Sesiynau nofio i ferched yn unig i'w cynnal un noson yr wythnos am 10 wythnos, gyda hyfforddwr ioga fenywaidd gymwys.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Cwmcam	Caerffili	Sefydlu sesiynau ioga i ferched a genethod yn unig.	£1,000.00
Pwll Cymunedol y Cymer	Castell-nedd Port Talbot	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy	Sir y Fflint	Pêl Fasged.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Dinbych	Sir Ddinbych	Cyflwyno athletau, hoci a pholo dŵr.	£1,000.00
Canolfan Gymunedol Dowlais	Merthyr Tudful	Cyflwyno dosbarthiadau aerobics yn y ganolfan ar gyfer oedolion ieuainc a merched gyda phlant ifanc.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Dwyrain Maesyfed	Powys	Annog plant ysgol a merched i gymryd rhan mewn sesiwn awr o siapio'r corff bob dydd.	
Canolfan Hamdden Glynebwy	Blaenau Gwent	Cyflwyno pêl droed genethod, darparu dosbarthiadau ffitrwydd fel ioga neu pilates, darparu dosbarth aerobics dŵr, rhoi cynnig ar sesiynau blasu mewn trampolinio, creu cysylltiadau gyda chlwb sydd wedi'i sefydlu.	£1,000.00
Pwll Nofio Edwardsville	Merthyr Tudful	Mwy o gymryd rhan mewn aerobics dŵr. Datblygu hyfforddiant mewnol i gynnig hyn.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Y Tylgoed	Torfaen	Cynghrair bêl droed dan do newydd i gefnogi cynlluniau achredu clwb ac ysgol CBDC. Creu gwell cysylltiadau rhwng y gymuned ag ysgolion a chlybiau.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Abergwaun	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy Ffitrwydd. Rhaglenni hyfforddi mewn tenis, pêl rwyd a phêl droed.	£1,000.00
Flash Leisure	Powys	Cyflwyno pecyn ffitrwydd boreol.	£1,000.00
Pafiliwn y Fflint	Sir y Fflint	Gweithgareddau iechyd a ffitrwydd.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Gian Wnion	Gwynedd	Cyflwyno trampolinio, loncian / rhedeg.	£1,000.00
Pwll Gwaunfarren	Merthyr Tudful	Sicrhau mwy o gymryd rhan mewn sesiynau aerobics dŵr drwy anfon staff ar gwrs hyfforddi. Hysbysebu, offer a sesiynau blasu.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Gwernyfed	Powys	Cynnig gweithgareddau aerobics a phêl rwyd newydd.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Harlech	Gwynedd	Pêl droed genethod / merched.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Hwlfordd	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy Ffitrwydd. Rhaglenni hyfforddi mewn pêl rwyd a phêl droed.	£1,000.00
Pwll Nofio Cyhoeddus Hwlfordd	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy, Prynu Offer a Sesiynau Blasau.	£1,000.00
Canolfan Denis Hwlfordd	Sir Benfro	Rhaglenni Hyfforddi mewn pêl rwyd a tennis.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Ysgol Uwchradd Penarlâg	Sir y Fflint	Cyflwyno sesiwn ffitrwydd i ferched – aerobics / cylchedau stepio.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Heolldu	Caerffili	Sesiynau pêl droed i enethod oed cynradd.	£1,000.00



22

Ymgeisydd	Awdurdod Lleol	Prosiect	Dyfarniad
Neuadd Chwaraeon John Bright	Conwy	Cyflwyno pêl droed genethod.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Knighton a'r Fro	Powys	Annog merched a genethod i ymarfer yn rheolaidd.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan	Ceredigion	Cyfleusterau am ddim i glybiau, sefydliadau a merched, meithrinfa i famau, llogi hyfforddwy	£1,000.00
Canolfan Hamdden Llandrindod	Powys	Rhaglen bum wythnos o stepio, pilates, ioga a siapiau'r corff.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Cyffordd Llandudno	Conwy	Creu clwb dringo i ferched yn unig i gyflwyno merched i sgiliau sylfaenol ac yna canolraddol. Creu cyfleusterau meithrinfa newydd.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Llandysul	Ceredigion	Hyfforddwy, Llogi Cyfleusterau / Offer a Hysbysebu.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Llanfair Caereinion	Powys	Cyflwyno sesiynau pêl droed i enethod, cyswllt gydag ysgolion lleol a chlwb pêl droed i ferched.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Llanfyllin	Powys	Ailgyflwyno aerobics dŵr.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Llangollen	Sir Ddinbych	Cyflwyno tenis i enethod 12-16 oed am 15 wythnos ar y cyd â CTL. Cyflwyno pêl rwyd i enethod 12-16 oed, gan mai dim ond i blant 7-11 oed mae'n cael ei gynniog ar hyn o bryd. Datblygu'r grŵp 12-16 oed ymhellach, yn cynnwys addysgu hyfforddwy. Cyflwyno sesiynau criced i ieuencid 16+ oed i ffurfio tîm merched yn cysylltu â chlwb criced Llangollen a'r ysgol uwchradd.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Llanidloes	Powys	Cynnig gweithgareddau dawns a pilates newydd.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Llantrisant	Rhondda Cynon Taf	Cwrs gweithgarwch 8 wythnos a gyflwynwyd gan hyfforddwy iechyd a ffitrwydd arbenigol, staff y ganolfan, hyfforddwy Ffitrwydd Cymru a hyfforddwy CRhC.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Lliswery	Casnewydd	Cyflwyno gweithgareddau ychwanegol i gynnwys merched a genethod.	£1,000.00
Canolfan a Thŷ Cymunedol Markham	Caerffili	Darparu 2 sesiwn ffitrwydd newydd yr wythnos.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Meads	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy Ffitrwydd. Rhaglenni hyfforddi mewn pêl rwyd a phêl droed.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Yr Wyddgrug	Sir y Ffliint	Cyflwyno golff.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Trefynwy	Sir Fynwy	Cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon mewn amgylchedd diogel a phroffesiynol.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Morgan Llwyd	Wrecsam	Cyflwyno dosbarthiadau hunanmddiffyn.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Treforys	Abertawe	SAQ, Amddiffyn Personol a Gymnasteg.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Nantyglo	Blaenau Gwent	Darparu dosbarthiadau ffitrwydd i ferched yn unig, fel hyfforddiant cylchedau, ioga a phêl heini.	£1,000.00
Pwll Nofio Arberth	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy Aerobics Dŵr, prynu offer a sesiynau blasu.	£1,000.00

23

Ymgeisydd	Awdurdod Lleol	Prosiect	Dyfarniad
Canolfan Hamdden Castell-nedd	Castell-nedd Port Talbot	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Castell-nedd	Castell-nedd Port Talbot	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Tredegar Newydd	Caerffili	Cynnig cyfleoedd pêl droed newydd i enethod yn Nhrefegar Newydd.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Newbridge	Caerffili	Mynd â sesiynau profi ffitrwydd symudol i'r gymuned.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Castell-neddydd Emlyn	Sir Gaerfyrddin	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Pwll a Chaeau Chwarae Neyland	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy Aerobics Dŵr a Hyfforddiant Pêl Droed.	£1,000.00
Pwll Cymunedol Olchfa	Abertawe	Offer dŵr, cwrs hyfforddi a ffoedd hyfforddi.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Penfro	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwy Ffitrwydd. Rhaglenni hyfforddi mewn tenis, pêl rwyd a phêl droed.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Penarth	Bro Morgannwg	Dosbarthiadau dawns ac aerobics newydd.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Penllyn	Gwynedd	Pêl droed i ferched / genethod.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Penyrheol	Abertawe	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Canolfan y Mileniwm Pllgwenly	Casnewydd	Sichau mwy o gymryd rhan mewn pêl droed ymhlith genethod.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Plas Coch	Wrecsam	Cyflwyno badminton, tenis bwrdd, sesiynau cyflwyno i'r ystafell ffitrwydd a chylchedau.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Plas Ffranco Gwynedd		Cyflwyno sboncen i ferched yn unig.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Plas Madog	Wrecsam	Cyflwyno dosbarthiadau hunanmddiffyn.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Plascrug	Ceredigion	Cyfleusterau am ddim i ferched a genethod am wythnos.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Pontardawe	Castell-nedd Port Talbot	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Pwll Nofio Pontardawe	Castell-nedd Port Talbot	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Pontarddulais	Abertawe	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Pontllanfraith	Caerffili	Dau sesiwn badminton newydd i ferched a genethod.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Pontypŵl	Torfaen	Sgïo, eirafyddio, eiralafnio, yn cael eu rhedeg ar y cyd â'r gweithgareddau hamdden ar foreau Mawrth i ferched. Cydlynu rhaglen 18 wythnos o wersi mewn blociau o 6 wythnos, yn cynnwys 6 gwrs sgïo, 6 gwrs eirafyddio a 6 gwrs eiralafnio.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Prestatyn	Sir Ddinbych	Cyflwyno criced i enethod 12 - 16 oed am 10 wythnos gydag ysgol uwchradd a Chlwb Criced Prestatyn. Sesiynau cerdded / loncian i ferched 18+ oed. Gŵyl gerdded i gloi o amgylch Craig y Don.	£1,000.00
Stadiwm Queensway	Wrecsam	Cyflwyno dosbarthiadau / clwb rhedeg i ferched.	£1,000.00



24

Ymgeisydd	Awdurdod Lleol	Prosiect	Dyfarniad
Canolfan Hamdden Rhaeadr Gwy	Powys	Sesiynau blasu mewn pêl droed i greu diddordeb, sesiynau hyfforddi pêl droed wythnosol, cyflwyno genethod i dimau pêl droed iau lleol.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Rhondda Fach	Rhondda Cynon Taf	Cwrs gweithgarwch 8 wythnos a gyflwynwyd gan hyfforddwyr iechyd a ffitrwydd arbenigol, staff y ganolfan, hyfforddwyr Ffitrwydd Cymru a hyfforddwyr CRhC.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Rhydyar	Merthyr Tudful	Cyflwyno sesiynau pêl rwyd i enethod D14 drwy gyfrwng sesiynau allgyrhaeddol mewn ysgolion lleol, cyflwyno dosbarth bocsarfer yn gynnar gyda'r nos i enethod 15 - 17 oed drwy gyfrwng sesiynau allgyrhaeddol mewn ysgolion lleol, cyflwyno pilates yn ystod amser cinio i ferched o bob oed.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Y Rhyl	Sir Ddinbych	Cyflwyno polo dŵr a phêl rwyd.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Yr Isga	Caerffili	Darparu boreau i enethod 11 - 13 oed yn unig.	£1,000.00
Campws Chwaraeon Rhiwabon	Wrecsam	Cyflwyno golff.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Rhuthun	Sir Ddinbych	Cyflwyno pêl rwyd am 10 wythnos - gan obeithio ffurfio clwb. Cyflwyno ffitrwydd dŵr, athletau a ffitrwydd cerdded.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Pontsenni	Powys	Sefydlu a rhedeg gweithgaredd 'Penolau a Choesau' wythnosol a hysbysebu.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Llanelwy	Sir Ddinbych	Cyflwyno criced, hoci a chwaraeon rased.	£1,000.00
Pwll Nofio, MGADd a Chyrtiau Tennis Tyddewi	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwyr Ffitrwydd. Rhaglenni hyfforddi mewn tenis a phêl droed.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Teifi	Ceredigion	Hyfforddwyr, Llogi Cyfleusterau / Offer a Hysbysebu.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Dinbych y Pysgod	Sir Benfro	Addysgu Hyfforddwyr Ffitrwydd. Rhaglenni hyfforddi mewn tenis, pêl rwyd a phêl droed.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Thornton Hall	Sir Benfro	Rhaglenni hyfforddi mewn tenis, pêl rwyd a phêl droed.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Tredegar	Blaenau Gwent	Cynnig sesiynau i ddilyn y duedd bresennol o ddiddordeb merched mewn ffitrwydd, darparu dosbarthiadau ar amseroedd addas o'r dydd, darparu addysg hyfforddwyr i'r staff a marchnata a hysbysebu'r sesiynau.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Tregaron	Ceredigion	Cyflwyniadau am ddim i'r Ystafell Ffitrwydd, costau cyflog a gweithdai yr hyfforddwyr hoci a phêl droed.	£1,000.00
Canolfan Gymunedol Treharris	Merthyr Tudful	Mwy o gymryd rhan mewn aerobics dŵr. Datblygu hyfforddiant mewnol i gynniig hyn.	£1,000.00
Canolfan Gymunedol Trelewis	Merthyr Tudful	Darparu hyfforddiant wythnosol mewn pêl droed merched. Datblygu hyfforddiant mewnol i gynniig hyn.	£1,000.00
Canolfan Hamdden Bro Nedd	Castell-nedd Port Talbot	Offer a Rhaglen.	£1,000.00
Waterworld Wrecsam	Wrecsam	Cyflwyno dosbarth bocsarfer a chymhwysyo 2 hyfforddwr mewn Tae Chi fel bod modd ychwanegu'r gweithgaredd yma at y rhai a gynigir.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Ystrad Mynach	Caerffili	Sesiynau ioga wythnosol am ddwyawr i ferched a genethod.	£1,000.00
Canolfan Chwaraeon Ystradgynlais	Powys	Datblygu cynllun allgyrhaeddol i ddenu merched sydd ag amser rhydd yn ystod y dydd i fynychu dosbarth cadw'n heini / ffordd o fyw iach.	£1,000.00

**Allwedd**

CRhC - Corff Rheoli Cenedlaethol  
MGADd - Man Gamau Aml-Ddefnydd

25

**Cynnwys yn Gymdeithasol - Dyfarniadau fesul Awdurdod Lleol 2003/4**

Ymgeisydd	Cefnogaeth	Safle yn y Mynegai Aml-Gyni	Prosiect	Dyfarniad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Pentref Deri)	Cefnogaeth Rhan Dau	20	MGADd wedi'i lifoleuo	£101,479
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Fernhill)	Cefnogaeth Rhan Dau	42	MGADd wedi'i lifoleuo	£116,551
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Canolfan Hamdden Tredegar)	Cynllun Wedi'i Gwblhau	43	Gwella'r caeau presennol, cae pêl droed newydd, CTA, MGADd, ffensio, draenio, pafiliwn newydd a chyflogi swyddog datblygu merched a genethod rhan-amser.	£1,247,650
<b>Cyfanswm</b>				<b>£1,465,680</b>

**Allwedd**

MGADd - Man Gemau Aml-Ddefnydd  
CTA - Cae Tyweirch Astro

## ATODIADAU

### ATODIAD 1 – DANGOSYDDION PERFFORMIAD STRATEGAETH SPORTLOT

	Y Ceisiadau y Gwnaed Cais Amdanynt	Y Ceisiadau a Gyflwynwyd			Y Dyfarniadau a Wnaed		Y Ceisiadau a Wrthodwyd	Maint y Dyfarniad ar gyfartaledd	Costau Gweinyddol	Y Cynlluniau a gafodd eu monitro
	Col 1 Nifer	Col 2 Nifer	Col 3 Gwerth y Prosiect	Col 4 Nifer	Col 5 Gwerth y Dyfarniad	Col 6 Cyfanswm costau'r prosiect	Col 7 Nifer	Col 8 Gwerth y Dyfarniadau (Col 5/Col 4)	Col 9 Gwerth	Col 10 % o'r Cynlluniau
Yn gyffredinol ers dechrau'r Loteri	5,366	9,855	731,448,941	14,442	132,513,187	237,426,636	2,684	49,372	6,959,000	
Yn gyffredinol	138	597	10,512,611	3,142	13,771,645	28,297,298	488	57,986	953,000	
Élite Cymru	AMH	359	1,756,454	171	790,153	790,153	188	4,620		100%
Coach Cymru	45	45	2,231,084	45	1,990,411	2,445,693	0	44,231		100%
Cyfalaif	93	41	5,731,229	52	8,333,751	21,524,668	30	160,264		100%
Y Grantiau Mân	AMH	152	793,844	97	437,145	584,392	50	4,507		100%
Y Gist Gymunedol	AMH	AMH	AMH	1,572	993,599	1,572,000	220	632		100%
** Campau'r Ddraig	AMH	AMH	AMH	1,205	1,226,586	1,380,392	AMH	1,018		100%

\*\* Menter yn hytrach na chynllun dyfarnu grantiau yw Campau'r Ddraig. Mae'r dyfarniadau a wnaed yn dynodi cost y fenter a nifer y clybiau / ysgolion sy'n elwa o'r fenter.

## ATODIADAU

### ATODIAD 2 – CYFLAWNIADAU'R CYSTADLEUWYR SY'N DERBYN CEFNOGAETH GAN Y LOTERI

#### Athletau

##### Jamie Baulch

Medal Aur, Cwpan Ewrop, 4 x 400m. Medal Efydd, 400m, Pencampwriaethau Dan Do y Byd

##### Tim Benjamin

Medal Aur, Cwpan Ewrop, 4 x 400m

##### Matt Elias

Medal Aur, Cwpan Ewrop, 4 x 400m

##### Christian Malcolm

Medal Arian, Cwpan Ewrop, 200m

##### Hayley Tullett

Medal Arian, Cwpan Ewrop, 3,000m. Medal Efydd, Pencampwriaethau'r Byd, 1,500m

##### Rhys Williams

Enillydd, Pencampwriaethau Ieuencid Ewrop, clwydi 400m

#### Badminton

##### Kelly Morgan

Enillydd, Cystadleuaeth Agored UDA, Senglau'r Merched

#### Bowling

##### John Price

Ail, Pencampwriaethau Dan Do y Byd

#### Bocsio

##### Kevin Evans

Enillydd, Cwpan Aml-Genedl Tammer

##### Darren Edwards a Matthew Edmonds

Efydd, Cwpan Aml-Genedl Tammer

#### Beicio

##### Nicole Cooke

Enillydd, Rasio Ffordd, Cwpan y Byd y Merched Hŷn. Medal Efydd, Pencampwriaethau Rasio Ffordd y Byd

##### Geraint Thomas

Ail x 2, Pencampwriaethau Trac Iau y Byd. Trydydd x 2, Pencampwriaethau Trac Iau y Byd

#### Anabledd – Athletau

##### Tracey Hinton

Enillydd, Gemau IBSA y Byd, 800m a 400m

##### Tanni Grey-Thompson

Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC, 100m, 200m, 400m

##### Lloyd Upstell

Ail, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC, 200m

#### Anabledd – Marchogol

##### Nicola Tustain

Enillydd x 2, Pencampwriaethau Byd IPC, Gwlad Belg, 3 disgyblaeth mewn Dressage

#### Anabledd – Codi Pŵer

##### Emma Brown

Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC

#### Anabledd – Nofio

##### Rhiannon Henry

Gemau Byd IBSA, Enillydd, 100m Pili Pala, 200m, 400m, 800m Dull Rhydd

##### Nyree Lewis

Enillydd, Cystadleuaeth Ryngwladol Agored Canada, 200m IM

##### David Roberts

Enillydd, Pencampwriaethau Agored yr Almaen, 100m Dull Rhydd

#### Anabledd – Tennis Bwrdd

##### Neil Robertson

Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC, Tim, a Chystadleuaeth Agored Sbaen, Tim

#### Ffensio

##### David Mansour

Enillydd, Foil y Dynion, Pencampwriaethau Hŷn Cenedlaethol Prydain

#### Golff

##### Nigel Edwards

Enillydd, Cwpan Walker, PF ac I v UDA

##### Stuart Manley

Enillydd, Cwpan Walker, PF ac I v UDA

#### Rhys Davies

Enillydd, Pencampwriaeth Golf Amatur Agored Bechgyn Prydain

#### Golff Merched

##### Becky Brewerton

Enillydd, Tlws Vagliano, PF ac Iwerddon, Ewrop

##### Anna Highgate

Dewiswyd ar gyfer Tim PF ac Iwerddon.

#### Rhwyfo

##### Tom James

Medal Efydd, 8 y Dynion, Pencampwriaethau Rhwyfo'r Byd

#### Hwyllo

##### Hannah Mills

Pencampwraig Optimist y Byd

##### David Evans

Enillydd, Dosbarth 29, Pencampwriaethau'r Byd

#### Swncwr

##### David John

Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd, Senglau'r Dynion

#### Sboncer

##### Tegwen Malik

Enillydd, Rownd Derfynol Cystadleuaeth Agored Savcor y Ffindir

##### David Evans

Enillydd, Clasur Qatar

#### Achub Bywyd Syrff

##### Alisa Cullen

Enillydd, Pencampwriaethau Ewrop

#### Nofio

##### David Davies

Enillydd, Pencampwriaethau Iau Ewrop, 1,500m Dull Rhydd

#### Tennis Bwrdd

##### Ryan Jenkins

Enillydd, Cystadleuaeth Grand Prix Prydain

#### Codi Pwysau

##### Michaela Breeze

Efydd, Pencampwriaethau Ewrop, Dosbarth 58kg

## ATODIADAU

### ATODIAD 3 – CYFARWYDDYD ARIANNOL Y LOTERI

#### Cyfarwyddiadau ariannol i Gyngor Chwaraeon Cymru a gyhoeddwyd dan adran 26(3) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998:

1. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru'n cydymffurfio â'r gofynion yn y Datganiad o Ofynion Ariannol (DOA) sydd ynghlwm fel Atodiad i'r Cyfarwyddiadau wrth gyflawni ei swyddogaeth dan Adran 26 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. Os yw wedi'i ddatgan yn y ddogfen honno, mae'n rhaid i Gyngor Chwaraeon Cymru sicrhau caniatâd y Prif Ysgrifennydd cyn cyflawni rhai gweithgareddau.
2. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru'n dyfeisio ac yn cadw at weithdrefn ar gyfer delio â gwrthdaro posibl rhwng diddordebau a all godi wrth i'r corff, neu aelodau unigol o'r corff hwnnw, werthuso ceisiadau. Dylid darparu copi o'r weithdrefn i'r Prif Ysgrifennydd. Ar ddechrau bob blwyddyn ariannol, bydd y Gyngor Chwaraeon yn darparu datganiad i'r Prif Ysgrifennydd yn cadarnhau ei fod wedi cadw at y weithdrefn yn ystod y flwyddyn ariannol sydd newydd fynd heibio.
3. Daw'r cyfarwyddiadau hyn i rym ar 28 Chwefror 1997. Mae'r cyfarwyddiadau a gyflwynwyd i Gyngor Chwaraeon Cymru ar 6 Chwefror 1995 dan Adran 26(3) o Ddeddf 1993 yn ddi-rym o 28 Chwefror 1997 ymlaen, ond byddant yn parhau'n berthnasol ar gyfer y grantiau a ddyfarnwyd cyn 28 Chwefror 1997.

## ATODIADAU

### ATODIAD 4 – CYFARWYDDYD POLISI'R LOTERI

#### Cyfarwyddyd Polisi a gyflwynwyd i Gyngor Chwaraeon Cymru dan Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998:

Mae'r Prif Ysgrifennydd, wrth ymarfer y pwerau a roddwyd iddo dan Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol Etc. 1998, yn rhoi trwy hyn y cyfarwyddiadau a ganlyn i Gyngor Chwaraeon Cymru:

1. Yn y cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993 fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.
2. Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru'n rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn wrth benderfynu ar y personau y dosberthir arian y Loteri iddynt dan Adran 26(1), a'r amodau cysylltiedig â'r dosbarthu hwnnw:

A *yr angen am sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu dan Adran 26(1) ar gyfer prosiectau sy'n hybu lles y cyhoedd neu ddibenion elusennol, ac nid er budd cyhoeddus yn bennaf;*

B *yr angen am sicrhau ei fod yn ystyried ceisiadau sy'n gysylltiedig â'r amrywiaeth cyflawn o weithgareddau sy'n berthnasol oddi mewn i Adran 22(3)(b) a'r gweithgareddau y mae ganddo bwerau i ddosbarthu arian mewn perthynas â hwy*

*i ei asesiad o anghenion chwaraeon a'i flaenoriaethau am y tro ar gyfer rhoi sylw iddynt;*

*ii yr angen am sicrhau bod pob rhanbarth yng Nghymru'n gallu defnyddio'r cyllid;*

*iii y sgôp ar gyfer lleihau cyni economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd â chreu manteision i chwaraeon;*

- C *yr angen am hybu argaeledd chwaraeon i bobl o bob adran o'n cymdeithas;*
- Ch *yr angen am hybu gwybodaeth am, a diddordeb mewn, chwaraeon ymhlith plant a phobl ieuainc;*
- D *yr angen am weithredu ymhellach o safbwynt nodau datblygiad cynaladwy;*
- Dd *yr angen am i'r arian a ddosberthir dan Adran 26(1) gael ei ddosbarthu i brosiectau sydd ar gyfer diben penodol ac o fewn amser penodedig;*
- E *yr angen:*
- i *ym mhob achos, am i ymgeiswyr ddangos bod y prosiect yn ymarferol yn ariannol ar gyfer cyfnod y grant;*
  - ii *os gwneir cais am arian cyfalaf neu gostau sefydlu, am gynllun busnes eglur y tu hwnt i gyfnod y grant, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y costau rhedeg a chynnal a chadw cysylltiedig;*
  - iii *mewn achosion eraill, am ystyried argaeledd tebygol cyllid arall i dalu am unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol wedi cwblhau cyfnod dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac am ddefnyddio cyllid y Loteri i helpu gyda'r cynnydd tuag at ymarferoldeb y tu hwnt i gyfnod y grant, lle bo modd;*





30

F yr angen am fynnu elfen o gyllid partneriaeth a / neu gyfraniadau o fath gwahanol, o ffynonellau eraill, yn unol â gallu rhesymol y gwahanol fathau o geisiadau, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd arbennig, i sicrhau cefnogaeth o'r fath;

Ff y fantais o weithio gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys dosbarthwyr eraill, lle mae hwn yn gyfrwng effeithiol ar gyfer cyflwyno elfennau o'i strategaeth;

G yr angen am sicrhau nad yw'n annog ceisiadau penodol;

Ng gwybodaeth sy'n angenrheidiol yn ei farn ef er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch bob cais, yn cynnwys cyngor annibynnol pan fo angen.

### Nodyn ar y Cyfarwyddiadau Polisi

Mae Cyfarwyddiadau Polisi A; B; C; Ch; D; Dd; E; F; Ff; G; Ng i gyd yn cael sylw yn y canllawiau ymgeisio, y ffurflenni cais a'r broses asesu, ac maent yn rhan allweddol o'r rhain.

Yn arbennig, mae Ch yn flaenoriaeth sylfaenol sy'n cael sylw ym mhob un o'r rhaglenni a gyllidir gan SPORTLOT.

Ff: mae gwaith ar y cyd â chyrrff dosbarthu eraill wedi parhau drwy gydol y flwyddyn drwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd gyda chyrrff dosbarthu Cymru, Cynghorau Chwaraeon eraill a phartneriaid amrywiol.

G: nid yw wedi annog ceisiadau ac mae ganddo sawl egwyl yn ystod y broses o wneud penderfyniadau i atal y posibilrwydd o ffafrio ffurflen gais a'i bwrw ymlaen. Fodd bynnag, mae wedi datblygu strategaeth i arenwi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi arian SPORTLOT, er mwyn gwneud y gwahaniaeth gorau posibl i chwaraeon gan ddefnyddio arian y Loteri.

## ATODIADAU

### ATODIAD 5 – CYDYMFFURFIAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU

31

#### Mae dull y Cyngor o weithredu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a amlinellir yn Atodiadau 3 a 4 yn cynnwys:

- cyhoeddi adroddiad a chyfrifon blynyddol sy'n dangos yn eglur gostau gweinyddol y Cyngor wrth iddo ddosbarthu arian drwy gyfrwng cronfa SPORTLOT;
- cynhyrchu cyfarwyddiadau a ddiwedderir yn rheolaidd ar gyfer darpar-ymgeiswyr;
- dosbarthu amrywiaeth eang o lenyddiaeth i'r rhai gyda diddordeb mewn gwneud cais am grantiau, yn cynnwys cyfarwyddiadau, llyfrynau briffio technegol a ffurflenni cais;
- cynhyrchu gwybodaeth gyffredinol am ddosbarthu arian y Loteri drwy ddatganiadau i'r wasg a chyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid yn y byd datblygu chwaraeon yng Nghymru, yn cynnwys awdurdodau lleol;
- cofnodi gwybodaeth am bob cais a dderbyniwyd;
- defnyddio systemau grant annibynnol fel a gymeradwywyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- hyfforddi a briffio staff i sicrhau dull effeithiol, teg a chyson o weithredu;
- datblygu polisiau a gweithdrefnau eglur ar gyfer gwerthuso ceisiadau, yn cynnwys asesu risg;
- gosod telerau ac amodau priodol ynghlwm wrth y grantiau a gynigir;
- ymgynghori'n eang gydag awdurdodau lleol, cyrrff rheoli a chynghorau chwaraeon lleol;
- gweithredu polisiau a systemau ar gyfer monitro a gwerthuso'n effeithiol y prosiectau / unigolion / gweithgareddau a gefnogir;
- gweithredu gweithdrefn apelio ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus anfodlon;

- trefnu archwiliadau mewnol ac allanol ar systemau.

Hefyd mae'n rhaid i'r gwaith o lunio'r adroddiad blynyddol hwn gydymffurfio â chyfarwyddiadau penodol yn y Datganiad o Ofynion Ariannol a chyda Nodyn Cyfarwyddyd (2/01) ar Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddwyd gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r rhain yn datgan ei bod yn ofynnol:

- cyflwyno adroddiad blynyddol ger bron y Senedd erbyn diwedd Hydref bob blwyddyn;
- i'r adroddiad:
  - (a) ddatgan y Cyfarwyddiadau dan Adran 26 o'r Ddeddf, eu perthnasedd i'r Cyngor a Datganiad o Gydymffurfiaeth (Atodiadau 4 a 5);
  - (b) cynnwys datganiad o'r ymrwymadau presennol, yn cynnwys gwybodaeth gryno am bob prosiect a chynllun a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn a rhestr o brosiectau cymeradwy y mae disgwyl iddynt dderbyn cyllid o £100,000 neu fwy;
  - (c) cynnwys disgrifiad o'r cynnydd a'r cyllid yn y dyfodol ar gyfer pob prosiect heb ei gwblhau yn derbyn £5 miliwn neu fwy o gyllid y Loteri;
  - (d) roi manylion am weithgareddau monitro a gwerthuso'r prosiect;
  - (e) cynnwys manylion am y costau gweinyddu;
  - (f) asesu perfformiad yn erbyn targedau o ran effeithlonrwydd gweinyddu ac yn erbyn y nodau a osodwyd yn Strategaeth SPORTLOT.

## ATODIADAU ATODIAD 6 – AELODAU'R PANELAU

Mae Siarter Brenhinol y Cyngor yn ei alluogi i benodi pwyllgorau neu banelau i ymarfer unrhyw rai o'i swyddogaethau. At ddibenion dosbarthu arian y loteri, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi penodi pum panel, a gaderir bob un gan aelod o'r Cyngor.

Mae'r Panel Cenedlaethol yn ystyried pob cais am brosiectau cyfalaf sy'n costio mwy na £250,000 yn ogystal â phrosiectau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r panelau rhanbarthol yn ystyried ceisiadau ar gyfer pob prosiact cyfalaf arall. Mae'r panel Rhagoriaeth Cenedlaethol yn ystyried ceisiadau gan unigolion a chyrrff rheoli chwaraeon am arian referniw.

Rhestrir aelodau'r panelau isod:

Cenedlaethol	Y De Ddwyrain
* Miss Anne Ellis MBE	* Mr Clive Thomas
Ms Helen Croft (penodwyd 1 Ebrill 2001)	Mr Graham Down (penodwyd 1 Ebrill 2001)
* Y Cyngorydd Keith Evans	Mrs Wendy Groves (penodwyd 1 Ebrill 2002)
Mr Paul Griffiths (penodwyd 1 Ebrill 2002)	Mrs Sarah Powell (penodwyd 1 Ebrill 2003)
* Mr Ieuan Lewis	Miss Sally Church (penodwyd 1 Ebrill 2003)
* Mr Philip Lloyd Jones	Mr Raymond Davies (penodwyd 1 Ebrill 2003)
Mr Bob Lowe (penodwyd 1 Ebrill 2002)	Mr Michael Harvey (penodwyd 1 Ebrill 2003)
Mr Berwyn Price (penodwyd 1 Ebrill 2002)	Mrs Barbara Beedham (penodwyd 1 Ebrill 2003)
Mr Aled Roberts (penodwyd 1 Ebrill 2001)	Mr Frank Rees (ymddiswyddodd 31 Mawrth 2004)
* Mr Clive Thomas	Mr Iain Varah (penodwyd 1 Ebrill 2001)
Miss Helen Phillips (penodwyd 1 Ebrill 2003)	* Mrs Christine Gittoes (penodwyd 1 Ebrill 2003)
Mr Haydn Ames (penodwyd 1 Ebrill 2003)	
Dr Nicky Bolton (penodwyd 1 Ebrill 2003)	
Mr Russell Ward (penodwyd 1 Ebrill 2003)	
Y De Orllewin	Y Gogledd
* Mr David Davies	* Mr Philip Lloyd Jones
Mr Alun Wyn Bevan (ymddiswyddodd 31 Mawrth 2004)	Y Cyngorydd R Mark Davies (penodwyd 1 Ebrill 2001)
Mr John Deason (ailbenodwyd 1 Ebrill 2001)	Mrs Sally R Lloyd Davies (ailbenodwyd 1 Ebrill 2001)
Mr David Evans (penodwyd 1 Ebrill 2002)	Ms Ann Gosse (penodwyd 1 Ebrill 2002)
Ms Sandra Hayes (ymddiswyddodd 31 Mawrth 2004)	Mr Mike Hornby (penodwyd 1 Ebrill 2001)
Mr Paul Hinder (penodwyd 1 Ebrill 2002)	Mr Gareth Hughes (penodwyd 1 Ebrill 2003)
Ms Gillian Hopley (penodwyd 1 Ebrill 2002)	Mr David James (penodwyd 1 Ebrill 2001)
Ms Deborah John (ailbenodwyd 1 Ebrill 2001)	* Mr Ieuan Lewis
Mr Andi Morgan (penodwyd 1 Ebrill 2003)	Miss Sian Mai Jones (penodwyd 1 Ebrill 2003)
* Mr P Huw Thomas	Mr Alan Watkin (penodwyd 1 Ebrill 2003)
* Ms Susan Williams	
Mr Roy Bergiers (penodwyd 1 Ebrill 2003)	
* Mr Ieuan Lewis	
Rhagoriaeth Cenedlaethol	
* Miss Anne Ellis MBE	Mr Rhodri Davies
Ms Tanni Grey-Thompson MBE	Mr John Hinchliffe
Mr Nicky Piper	Mr Berwyn Price
Mr Mark Tattersall	* Mr Robert Turner
Mr Nigel Walker	Mr Adrian Davies
* Mr Lynn Davies MBE	Miss Lynette Harries
* Aelod o Gyngor Chwaraeon Cymru	

## ATODIADAU ATODIAD 7 – MONITRO A GWERTHUSO

### Y Gist Gymunedol

Yn 2003, cynhaliwyd gwerthusiad mewnlol o gynllun y Gist Gymunedol gan yr Adran Ymchwilio a Gwerthuso. Manylir ynghylch rhai o sylwadau'r adroddiad isod.

- Roedd canmol mawr ar y Gist Gymunedol fel esiampl ragorol o gynllun grantiau bychan. Dywedodd aelodau'r panelau a staff datblygu chwaraeon yr awdurdodau lleol bod llwyddo i gyrraedd chwaraeon ar lefel gyffredin a grwpiau blaenoriaeth, fel pobl ieuainc, ymhlith ei gyflawniadau mwyaf nodedig.
- Ar ben hynny, tynnodd y rhai â'r diddordeb pennaf yn y cynllun sylw at y manteision datblygu chwaraeon sylweddol y gellid eu cael gydag arian grant y Gist Gymunedol.
- Dywedodd un rhan o bump o'r clybiau a'r sefydliadau bod eu dyfarniad yn gwneud gwahaniaeth sylweddol a dywedodd 76% pellach bod eu dyfarniad yn parhau i wneud gwahaniaeth mawr i'w clwb neu eu sefydliad.
- Dywedwyd bod natur gyflym a syml y broses ymgeisio'n ffactor a oedd yn cyfrannu'n fawr at lwyddiant y cynllun – dywedodd 90% o'r clybiau a'r sefydliadau bod y broses yn gyffredinol yn naill ai'n rhagorol neu'n dda, a dywedodd 80% bob pob elfen o'r broses naill ai'n rhagorol neu'n dda.

- Mae panelau'r Gist Gymunedol yn gweithredu'n effeithlon ac yn gwneud eu holl waith yn unol â Nodiadau Gweinyddu Cist Gymunedol SPORTLOT.
- Dywedodd y rhai â'r diddordeb pennaf bod angen adolygu a diweddarau'r meini prawf ar gyfer dosbarthu'r cyllid, er mwyn sicrhau gwell cysondeb wrth ddehongli a gweithredu'r broses ymgeisio ym mhob un o'r panelau.
- Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod aelodau'r panelau a staff perthnasol yr awdurdodau lleol yn fodlon ar hyn o bryd gyda gofynion y Gist Gymunedol ar eu hamser. Fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio nad oes llawer o le i gynyddu eu baich gwaith mewn unrhyw faes.

### Mân-Grantiau

Mae'r ymgeiswyr yn cyflwyno gwybodaeth fonitro ragdybiol ar eu ffurflenni cais ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno adroddiadau cwblhau prosiectau wedi i'w prosiectau ddog i ben.

### Her y Canolfannau Hamdden

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd llwyddiannus gwblhau ffurflen fonitro a gwerthuso o fewn pedair wythnos i ddiwedd y rhaglen. Gan mai yn ystod 2003 y cafodd y cynllun ei lansio, dim ond saith cynllun sydd wedi'u cwblhau hyd yma ac wedi dychwelyd y ffurflenni monitro a gwerthuso. Bydd gwybodaeth bellach am fonitro a gwerthuso ar gael yn adroddiad 2004/5.



## Cyfalaf – Wedi Dyfarniad

Cyn rhoi caniatâd i brosiect fynd yn ei flaen, a chyn rhyddhau unrhyw grant, mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno'r holl ddogfennau angenrheidiol. Edrychir yn fanwl ar hyn gyda'r ymgeiswyr yn y gweithdy wedi rhoi dyfarniad. Mae pob prosiect yn cael ei archwilio'n fanwl er mwyn sicrhau bod yr holl dystiolaeth ddogfennol a chytundebol wedi cael ei dychwelyd a'i chanfod yn foddhaol. Mae'n rhaid cadarnhau pecyn cyllido'r ymgeisydd yn y cam hwn hefyd. Mae pob ymgeisydd yn cyflwyno proffil hawlio grant i sicrhau bod yr arian grant priodol yn cael ei dynnu i lawr fel y bo angen. Gwneir y rhan fwyaf o'r taliadau fesul cam ac ar sail y canran o gostau'r prosiect mewn perthynas â'r grant a ddyfarnwyd. Telir taliadau interim ar anfonebau ffurflen, ac mae angen anfonebau ag iddynt dderbynebau ar gyfer y prosiect cyfan cyn rhyddheir elfen derfynol y grant.

Telir pob hawliad hyd at uchafswm o 97.5% o gyfanswm y grant. Bryd hynny, mae'r swyddog achos yn cynnal ymweliad derfynol â'r safle.

Mae ymweliad â'r safle gan swyddog o Gyngor Chwaraeon Cymru'n sicrhau bod y cynllun wedi cael ei gwblhau yn unol â'r cynnig o grant. Mae'r ymweliad derfynol â'r safle i 'arwyddo'r' prosiect yn cynnwys prawf cyflawn ar gydymffurfiaeth â'r cais cymeradwy gwreiddiol. Mae'r cynllun, y llunwedd a'r manylion yn cael eu gwirio, a'r cyfranogiad mewn chwaraeon a'r

defnydd. Unwaith mae'r prosiect wedi cael ei arwyddo'n derfynol ac wedi derbyn yr holl ddogfennau derfynol yn foddhaol, mae'r 2.5% olaf o grant yn cael ei ryddhau. Gyda phrosiectau mawr, mae'r swyddogion yn mynychu'r holl gyfarfodydd o'r tîm dylunio ac yn ymwneud yn llawn â'r broses ddatblygu. Mae'r ymgeiswyr yn ymwybodol bod cynnydd eu prosiect yn cael ei wlyo'n fanwl, fel bod modd monitro'r costau yn erbyn y gwaith a wneir.

Mewn perthynas â chyllid partneriaeth, cafwyd rhai problemau am nad yw'r ymgeiswyr wedi llwyddo weithiau i godi'r swm llawn fel a nodwyd, neu nid yw elfennau o'r cyllid partneriaeth wedi'i gadarnhau. Yn y sefyllfa hon, anogir yr ymgeisydd i gysylltu â'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd i ystyried ffyrdd eraill o sicrhau cyllid o'r fath. Mewn perthynas â gorwario ar y gyllideb, nid oes modd cyllido unrhyw gynnydd yn y grant. Yr unig eithriad i hyn hyd yma yw pan welwyd un ymgeisydd yn wynebu costau TAW annisgwyl. Yn yr achosion hyn, byddai pob prosiect yn cael ei gyflwyno i'r panel. Gall y panel ddyfarnu cyllid ychwanegol os yw'n teimlo ei bod yn anodd rhagweld y sefyllfa ynghylch TAW yn glir wrth wneud y cais.



Fodd bynnag, ers cyflwyno'r broses ddeugam, mae'r sefyllfa ynghylch TAW yn cael ei chadarnhau yn Rhan Dau y broses ymgeisio yn awr, er mwyn lleihau'r siawns o unrhyw broblemau gyda TAW.

## Cyfalaf – Wedi Dyfarniad

Yn 2003/4, gwnaed yr holl waith monitro gan y Rheolwr Prosiectau Arbennig. Mae wedi gwneud gwaith monitro ansoddol ar 93 o brosiectau yn ystod y flwyddyn

## Campau'r Ddraig

Mae pob un o gynlluniau Campau'r Ddraig yn cyflwyno gwybodaeth reoli leol am y cynnydd a wnaed yn erbyn y nodau gwirioneddol a'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y canlyniadau. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r cynllun yn 2003/04 ac roedd yn eithriadol positif am y cynnydd a wnaed.

## Chwaraeon Anabledd Cymru

Mae pob un o gynlluniau Chwaraeon Anabledd Cymru'n cyflwyno gwybodaeth reoli leol am y cynnydd a wnaed yn erbyn y nodau gwirioneddol a'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y canlyniadau. Cynhaliwyd gwerthusiad dechreuol o'r cynllun yn 2001/02.

## Élite Cymru

Gwneir y gwaith monitro drwy asesu yn erbyn y targedau gwreiddiol. Mae perfformiad pawb sy'n derbyn dyfarniad yn cael ei fonitro a chynhelir adolygiad o gynnydd ar ddiwedd cyfnod y dyfarniad. Gwneir hyn ar y cyd â'r corff rheoli chwaraeon perthnasol. Mewn rhai achosion, mae'r grantiau wedi cael eu tynnu'n ôl oherwydd lefelau perfformio gwael, ond fe all rhai o'r athletwyr hynny fod yn gymwys am gyllid gan Gymorth Chwaraeon Cymru o hyd. I'r gwrthwyneb, os yw athletwr yn gwneud yn well na'r disgwyl ac yn bodloni'r meini prawf perthnasol, gall gael ei drosglwyddo i Gynllun Perfformio Safon y Byd y DG.

Cyflwynwyd adroddiadau i'r Panel ar gyfer pob athletwr a oedd yn ailgyflwyno yn ystod y flwyddyn. Roedd rhyw 126 o athletwyr yn llwyddiannus yn eu cais am ddyfarniadau newydd. Roedd 14 yn aflwyddiannus neu cawsant eu tynnu'n ôl yn ystod y flwyddyn oherwydd diffyg cynnydd ac ni fu i 11 o unigolion ailymgeisio am ddyfarniadau.

## Coach Cymru

Cwblhawyd y gwaith monitro a gwerthuso ochr yn ochr â'r gefnogaeth ddatblygu flynyddol.

## ATODIADAU ATODIAD 8 – APELIO

36

Os oes ymgeiswyr am grantiau cyfalaf neu refeniw yn anfodlon gyda'r modd y cafodd eu cais ei ystyried, gallant gyflwyno apêl ffurfiol i sylw Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru o fewn tri mis i ddyddiad y llythyr gwrthod gwreiddiol.

Ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau yn ystod 2003/4.

## ATODIADAU ATODIAD 9 – COSTAU GWEINYDDOL

Integreiddir holl weithgareddau'r loteri oddi mewn i waith a swyddogaeth ehangach Cyngor Chwaraeon Cymru. Cyfrifir y gyfran o holl gostau gweinyddol y staff ar sail 'neilltuo amser'. Mae unrhyw gostau ychwanegol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r loteri, ee archwilio neu gyhoedduswydd, yn cael eu hadfer yn uniongyrchol. Gwariwyd cyfanswm o £1,546,000 ar gostau gweinyddu yn ystod 2003/4 ac mae'r manylion fel a ganlyn:

Costau staff	£984,000
Cyhoeddiadau	£182,000
Costau uniongyrchol	£ 47,000
Costau gwasanaethau	£258,000
Teithio a chynhaliaeth	£ 75,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,546,000</b>

Mae'r costau hyn yn cynrychioli 7% o'r grantiau a dalwyd, 14.5% o'r incwm a dderbyniwyd ac 8.5% o'r ymrwymadau a wnaed.